Gwanwyn 2025

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

# Mwynglawdd y Parc

Rhaglen Mwyngloddiau Metel Cymru



## Cefndir

Mae mwyngloddiau metel segur yn achosi llygredd sylweddol yng Nghymru, gan niweidio ecoleg afonydd gyda metelau fel cadmiwm, plwm, sinc a chopr. Mae yna ryw 1,300 o fwyngloddiau metel segur yng Nghymru yr amcangyfrifir eu bod yn effeithio ar 700 km o afonydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn cydweithio ar y Rhaglen Mwyngloddiau Metel i fynd i'r afael â'r etifeddiaeth lygru hon. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru.

Prif nod y Rhaglen yw, lle bo'n ymarferol yn dechnegol ac yn ariannol, lleihau llygredd o fwyngloddiau metel segur er mwyn gwella iechyd ein hafonydd, er budd yr amgylchedd, pobl a'r economi.

Wrth wneud hynny, bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac yn gwella buddion llesiant cymunedol, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Cyd-destun y Prosiect

Mae Mwynglawdd y Parc (neu dim ond 'Y Parc') wedi'i leoli yng Nghoedwig Gwydir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, tua 1.6 km i'r de-orllewin o Lanrwst. Mae wedi'i gydgysylltu o dan y ddaear ag un ar ddeg o fwyngloddiau eraill, a dyma'r prif bwynt gollwng dŵr mwynglawdd o'r gweithfeydd tanddaearol helaeth hyn.

Mae'r Parc wedi'i nodi fel prif ffynhonnell metelau i Nant Gwydir ac Afon Conwy, gan gyfrannu at fethiant y corff dŵr i gyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae ein gwaith monitro yn amcangyfrif bod tua 3,600 kg o sinc, 67 kg o blwm ac 17 kg o gadmiwm yn mynd i mewn i'r amgylchedd bob blwyddyn.

Mae'r metelau ecowenwynig hyn yn achosi difrod amgylcheddol ac ecolegol sylweddol, gan leihau poblogaethau pysgod ac amrywiaeth ffawna di-asgwrn-cefn.

Y Parc yw un o'n prosiectau blaenoriaeth, gyda'r prif amcan o leihau'r llygredd hwn. Mae nifer o faterion amgylcheddol sensitif y mae'n rhaid i'r prosiect eu hystyried, gan gynnwys nodweddion treftadaeth a chynefinoedd sensitif, a'n nod yw gweithio'n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau a grwpiau diddordeb arbennig, wrth i ni chwilio am ateb.

## Cynnydd y Prosiect

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth i ddeall ffynonellau llygredd y Parc yn well, ac i nodi opsiynau adfer posibl.

Yn 2020, ymgymerwyd ag adolygiad o hydroleg dŵr mwyngloddiau a ddangosodd risg isel o ollwng dŵr mwynglawdd yn sydyn o geuffyrdd 3 a 4 y Parc. Argymhellodd yr adolygiad hwn waith ychwanegol i wella ein dealltwriaeth o system y mwynglawdd.

Yn dilyn hynny, gosodwyd adeileddau monitro llif ar ollyngiadau pedair ceuffordd, tri all-lif o domen a adferwyd, a gollyngfa Cronfa Ddŵr y Fuches Las. Rydym yn parhau i fonitro ansawdd a llif y dŵr mewn lleoliadau allweddol o amgylch y mwynglawdd.

Rydym wedi cwblhau asesiadau archeolegol ac ecolegol ac wedi comisiynu astudiaeth gwmpasu i nodi rhestr hir o opsiynau lliniaru posibl i wella ansawdd dŵr yn Nant Gwydir ac Afon Conwy.

Mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o'r opsiynau lliniaru lefel uchel a gyflwynir isod i reoli'r ystod o ffynonellau llygredd ym Parc yn llwyddiannus.

Rydym yn croesawu eich mewnbwn wrth i ni barhau i ddatblygu ein hopsiynau, a cheisio canfod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.



## Opsiynau Lliniaru Posibl

- Trin dŵr mwynglawdd
- Rheolaethau erydiad
- Rheoli llygredd gwasgaredig arall
- Rheoli dŵr daear
- Rheoli dŵr wyneb

## Treftadaeth ac Ecoleg Mwyngloddio

Saif y Parc o fewn Coedwig Gwydir, sy'n ardal o gryn sensitifrwydd a diddordeb archaeolegol ac ecolegol, yn aml yn ymwneud â nodweddion mwyngloddio etifeddol.

Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion ecolegol o ddiddordeb o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Mwyngloddiau a Chreigiau Gwydir ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Mwyngloddiau Fforest Gwydir.

Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi ar gyfer yr ystlum pedol lleiaf a nifer o blanhigion prin sy'n tyfu ar domenni sborion llawn metel y mwynglawdd, gan gynnwys cennau sy'n brin yn genedlaethol a phlanhigion is sy'n ffurfio cynefin 'glaswelltir metelaidd'.

Mae nifer o nodweddion treftadaeth yn bresennol yn y Parc ac ystyrir bod un o'r rhain, Kneebone Cutting, o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei bod yn dystiolaeth o gloddio cynnar ar y safle.
Ystyrir bod y mwynglawdd ei hun o bwysigrwydd rhanbarthol, gan gynrychioli'r diwydiant mwyngloddio plwm sylweddol yng Nghoedwig Gwydir. Mae Mwynglawdd Plwm Hafna a Mwynglawdd Plwm Dyffryn Conwy yn henebion cofrestredig ac wedi'u lleoli'n agos i'r Parc.

## Y Camau Nesaf

Byddwn nawr yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb i asesu addasrwydd technegol, amgylcheddol ac economaidd yr opsiynau lliniaru posibl.

Bydd hyn yn arwain at restr fer o opsiynau dichonadwy y bydd strategaeth adfer a ffefrir yn cael ei dewis ohoni ar gyfer y safle.

Mae'n debygol y bydd hon yn strategaeth fesul cam, yn targedu ffynonellau llygredd penodol dros nifer o flynyddoedd, gan ganiatáu dylunio, adeiladu ac yna asesu pob ymyriad.

Hoffem i'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill chwarae rhan allweddol yn y broses hon.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach yn y prosiect, ac yn cyhoeddi cylchlythyrau pellach i gyfleu cynnydd.

Cyflwynir amserlen ddangosol isod, sy'n amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.



# Llinell Amser Gyfredol

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

### Hyd yma

**Diffinio'r broblem**

Arolygon sylfaenol a monitro ansawdd dŵr i lywio astudiaeth gwmpasu a rhestr hir o opsiynau lliniaru.

### 2025

**Rhestr fer o opsiynau**

Astudiaeth ddichonoldeb i asesu opsiynau rhestr hir a nodi rhestr fer addas o opsiynau lliniaru posibl.

### O 2026 Ymlaen

**Strategaeth adfer a ffefrir**

Datblygu'r strategaeth adfer a ffefrir ar gyfer y safle gydag opsiynau lliniaru wedi'u sgorio ar gyfer ymgynghoriad pellach.

### O 2026 Ymlaen

**Adeiladu ac asesu**

Dylunio ac adeiladu'r opsiwn lliniaru sydd â'r sgôr uchaf, ac yna asesu ei effaith ar ansawdd dŵr.

# Cadw mewn Cysylltiad a Sut i Gymryd Rhan

Rydym am glywed gennych wrth i ni symud ymlaen â Phrosiect Mwynglawdd y Parc ac archwilio'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y gellir eu datblygu fel rhan o'r strategaeth a ffefrir ar gyfer y safle hwn.

Archwiliwch fwy am Brosiect Mwynglawdd y Parc yn ogystal â'r Rhaglen Mwyngloddiau Metel Cymru ehangach trwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

bit.ly/MwynglawddParc

bit.ly/LlygreddDŵrMwyngloddiauMetel

Os hoffech chi rannu eich barn neu gael eich ychwanegu at ein rhestr e-bost, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar y manylion isod:

0300 065 3000

parc@metalmineswales.co.uk

**Mae hen fwyngloddiau yn fannau peryglus gyda llawer o beryglon cudd. Mae llawer o'n prosiectau wedi'u lleoli ar dir preifat lle na chaniateir mynediad cyhoeddus heb gymeradwyaeth y tirfeddiannwr.**